Mynediad y DU i Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP): Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn galw am dystiolaeth

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 24 Gorffennaf 2023
Dyddiad cau: 10 Medi 2023

Crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i'r alwad hon am dystiolaeth ar gyfer Cyngor CPTPP S42 (Saesneg yn unig)

Bydd yr alwad hon am dystiolaeth yn fwyaf perthnasol i'r canlynol:

Defnyddwyr, cymdeithasau masnach, cyrff anllywodraethol a phartïon sydd â buddiant.

Diben yr alwad am dystiolaeth

Bydd ymatebion rhanddeiliaid yn llywio cyngor yr ASB a'r FSS i'r Adran Busnes a Masnach a fydd yn cyfrannu at adroddiad Llywodraeth y DU (sy'n ofynnol o dan Adran 42(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020) fel rhan o'r broses graffu Seneddol ar gyfer y Cytundebau Masnach Rydd hyn.

Sut i ymateb

Wrth gyflwyno ymatebion, dylid sicrhau:

- eu bod ar ffurf dogfen Microsoft Word
- nad ydynt yn fwy na 2 dudalen o hyd (gan ddefnyddio ffont Times New Roman, maint 12, gyda bylchau 1.5 rhwng llinellau ac ymylon o 2.54cm)

Gall yr ASB ac FSS ddyfynnu'r ymatebion a ddaw i law au yn eu cyngor. Os hoffech i'r holl ymatebion a gyflwynir gennych, neu ran ohonynt, gael eu trin yn gyfrinachol, cysylltwch â'r ASB a'r FSS drwy ftascrutiny@food.gov.uk. Mae gan yr ASB ac FSS ddisgresiwn llawn i benderfynu ar berthnasedd ymatebion.

Rhaid i unigolion neu endidau sy'n cyflwyno ymatebion nodi eu gwefan (os ydynt yn sefydliad), ynghyd â chyfeiriad e-bost a chyswllt a enwir. Gellir cysylltu ag unigolion neu endidau sy'n cyflwyno ymatebion i gael rhagor o wybodaeth.

Manylion yr alwad am dystiolaeth

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch a allai darpariaethau ym Mhartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP), sy'n ymwneud â masnachu cynhyrchion amaethyddol, effeithio ar gynnal amddiffyniadau statudol y DU o ran iechyd dynol, ac i ba raddau, a hyn yn unol â chylch gwaith yr ASB ac FSS sy'n cwmpasu diogelwch bwyd a maeth.

Er gwybodaeth, yn unol â'r llythyr comisiynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach i'r ASB ac FSS, ni ddylai eich ymatebion roi sylw i fywyd neu iechyd anifeiliaid neu blanhigion; lles anifeiliaid; na materion o ran yr amgylchedd gan y bydd y meysydd hyn yn cael eu hasesu gan y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth.

Tystiolaeth sydd ei hangen

Tystiolaeth destunol ynghylch a yw'r mesurau sy'n gymwys i fasnachu cynhyrchion amaethyddol yn CPTPP yn gyson â chynnal lefelau amddiffyniadau statudol y DU mewn perthynas â diogelwch bwyd a maeth, ac i ba raddau.

Ymatebion

Gofynnir bod ymatebion yn dod i law erbyn diwedd y dydd 10 Medi 2023. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

Anfonwch eich ymatebion i ftascrutiny@food.gov.uk.

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer Ymgyngoriadau.

Mwy o wybodaeth

Os oes angen y ddogfen hon arnoch chi mewn fformat haws ei ddarllen, anfonwch fanylion at y swyddog cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Ar ran yr ASB, diolch i chi am helpu i sicrhau bod ein datblygiad polisi yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn.

Tîm Trafodaethau Masnach, Cyfarwyddiaeth y DU a Materion Rhyngwladol